

Llawdriniaeth cataract

Gwybodaeth i gleifion



Cynlluniwyd y daflen hon i roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch cyn, yn ystod ac ar ôl i chi gael llawdriniaeth cataract

DEWCH Â'R DAFLEN HON
GYDA CHI I BOB YMWELIAD


Newmedica

Eye Health Clinics | Surgical Centres

Ardal label argraffu

Apwyntiad claf allanol cyn llawdriniaeth	Dyddiad ac amser	D	D	M	M	B	B	B	B	A	A	M	M
Prawf gwaed INR (os yw ar Warfarin) Labordy Patholeg os oes angen	Dyddiad ac amser	D	D	M	M	B	B	B	B	A	A	M	M
Llawdriniaeth	Dyddiad ac amser	D	D	M	M	B	B	B	B	A	A	M	M
• Dewch â rhywun gyda chi i'ch apwyntiad gan na fyddwch yn gallu gyrru adref. • Cofiwch gael rhywbeth ysgafn i'w fwyta a'i yfed cyn i chi adael eich cartref a chymryd unrhyw feddyginiaeth fel arfer. • Gwisgwch ddillad glân, llac. • Peidiwch â gwisgo colur. • Peidiwch â dod â phethau gwerthfawr/bagiau i'ch apwyntiad llawfeddygol. Mae cyfleusterau storio cyfyngedig ar gael ond bydd eitemau'n cael eu gadael ar eich menter eich hun.													
Apwyntiad dilynol	Dyddiad ac amser	D	D	M	M	B	B	B	B	A	A	M	M

Cynnwys

Y cataract	4
Tebygolrwydd o well golwg	5
Manteision a risgiau llawdriniaeth cataract	5
Rhai cymhlethdodau posibl yn ystod y llawdriniaeth	6
Rhai cymhlethdodau posibl ar ôl y llawdriniaeth	6
A fydd angen sbectol arnaf ar ôl llawdriniaeth cataract?	8
Yr ymgynghoriad cyn llawdriniaeth	10
Y llawdriniaeth	12
Ar ôl y llawdriniaeth	13
Sbectol ar ôl llawdriniaeth cataract	16
Ffurflen gydsynio	17
Rhifau cyswllt defnyddiol a brys	20

Gwybodaeth i gleifion

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi a fydd yn eich helpu i benderfynu a ydych am gael llawdriniaeth cataract. Efallai y byddwch am ei drafod gyda pherthynas neu ofalwr.

Cyn i chi gael y llawdriniaeth, gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd felly mae'n bwysig eich bod yn deall y daflen cyn i chi benderfynu cael llawdriniaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, efallai yr hoffech eu hysgrifennu fel y gallwch ofyn i un o staff y clinig. Mae lle ar dudalennau 7 ac 16 i chi ysgrifennu cwestiynau.

Y cataract

Efallai y bydd eich llawfeddyg llygaid yn argymhell llawdriniaeth cataract os yw'r lens yn eich llygad wedi mynd yn gymylog, gan ei gwneud hi'n anodd i chi weld yn ddigon da i wneud eich gweithgareddau dyddiol arferol.


Os na chaiff y cataract ei dynnu, efallai y bydd eich golwg yn aros yr un fath, ond mae'n debyg y bydd yn gwaethygu'n raddol.

Mae aros am gyfnod hwy o amser yn annhebygol o wneud y llawdriniaeth yn fwy anodd, oni bai bod eich golwg mor wael fel mai'r cyfan y gallwch chi ei weld yw golau a thywyllwch.

Beth yw llawdriniaeth cataract a beth sydd angen i mi ei wybod?

Mae llawdriniaeth cataract yn tynnu'ch lens naturiol gymylog ac yn rhoi lens plastig clir yn ei lle (mewnblaniad lens). Gwneir hyn trwy doriad bach yn wal galed pelen y llygad (y gornbilen neu'r sglera). Mae'r mewnblaniad fel arfer yn mynd yn y capsawl lens, sy'n cael ei adael yn ei le gwreiddiol yn y llygad.

Mae'r toriad fel arfer yn selio ar ei ben ei hun, ond mae angen pwyth ar rai cleifion. Mae'r pwyth naill ai'n hydoddi neu'n cael ei dynnu mewn ymweliad clinig diweddarach.



Tebygolrwydd o well golwg

Ar ôl y llawdriniaeth gallwch ddarllen neu wyllo'r teledu bron yn syth, ond efallai y bydd eich golwg yn aneglur.

Mae angen amser ar y llygad sydd wedi derbyn y driniaeth i addasu fel y gall ganolbwyntio'n iawn gyda'r llygad arall, yn enwedig os oes gan y llygad arall gataract.

Mae golwg y mwyafrif helaeth o gleifion wedi gwella ar ôl llawdriniaeth cataract.

Sylwch, os oes gennych gyflwr arall fel diabetes, glawcoma neu ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran, efallai y bydd ansawdd eich golwg yn gyfyngedig hyd yn oed ar ôl llawdriniaeth lwyddiannus.

Manteision a risgiau llawdriniaeth cataract

Y manteision amlycaf yw gwelliant o ran golwg cliriach a gwell golwg lliw. Oherwydd bod mewnbaniadau lens yn cael eu dewis i ddatrys problema ffocws presennol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn canfod bod eu golwg yn gwella'n sylweddol ar ôl llawdriniaeth ond bydd angen iddynt gael sbectol newydd.

Fel arfer mae angen sbectol ddarllen ar ôl llawdriniaeth cataract.

Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol bod risg fach o gymhlethdodau, naill ai yn ystod neu ar ôl y llawdriniaeth.

Rhai cymhlethdodau posibl yn ystod y llawdriniaeth

- Rhwygo rhan gefn y capsawl lens gydag aflonyddwch y gel y tu mewn i'r llygad, a all weithiau arwain at lai o olwg
- Colli'r cyfan neu ran o'r cataract i gefn y llygad sy'n gofyn am llawdriniaeth bellach a all fod angen anaesthetig cyffredinol
- Gwaedu y tu mewn i'r llygad
- Methu gosod lens newydd

Rhai cymhlethdodau posibl ar ôl y llawdriniaeth

- Cleisio'r llygad neu'r amrannau
- Pwysedd uchel y tu mewn i'r llygad
- Cymylu o'r gornbilen
- Mae syndod plygiannol yn digwydd pan fo gwahaniaeth sylweddol yn y presgripsiwn sbectol disgwylidig ar ôl llawdriniaeth. Gall hyn ddigwydd mewn hyd at 10% o gleifion ac fel arfer gellir ei gywiro â sbectol. Ar gyfer nifer fach iawn o achosion efallai y bydd angen triniaeth bellach ond byddwn yn trafod unrhyw gamau nesaf gyda chi
- Cryfder anghywir neu ddadleoliad y mewnblianad
- Chwydd y retina - oedema macwlaid
- Retina datgysylltiedig a all arwain at golli golwg
- Haint yn y llygad - endoffthalmitis - a all arwain at golli golwg neu hyd yn oed golli'r llygad
- Alergedd i'r feddyginiaeth a ddefnyddir
- Crafiadau poenus ar wyneb y llygad
- Llygad sych
- Llawdriniaeth bellach os nad yw'r clwyf yn selio, neu os bydd unrhyw ddarnau o lens yn cael eu gadael ar ôl
- Trymiant yn yr amrant
- Llud y tu mewn i'r llygad

Mae cymhlethdodau difrifol yn brin, ac yn y rhan fwyaf o achosion gellir eu trin yn effeithiol. Mae risg (llai nag un o bob cant) y bydd eich golwg yn waeth ar ôl llawdriniaeth o'i gymharu ag o'r blaen. Gall hyn fod am amrywiaeth o resymau ac mewn achosion eithafol gall arwain at ddallineb.

Yr enw ar y cymhlethdod mwyaf cyffredin yw didreiddiad capsïwlaidd ôl (posterior capsular opacification). Gall ddatblygu'n raddol ar ôl misoedd neu flynyddoedd.

Pan fydd hyn yn digwydd, mae rhan gefn y capsïwl lens, a adawyd yn y llygad i gynnal y mewnbaniad, yn mynd yn gymylog. Mae hyn yn atal golau rhag cyrraedd y retina.

I drin hyn, mae'r arbenigwr llygaid yn defnyddio pelydr laser i wneud agoriad bach yn y bilen gymylog er mwyn gwella'r golwg. Mae hon yn weithdrefn cleifion allanol ddi-boen sydd fel arfer yn cymryd ychydig funudau yn unig.

Gobeithiwn fod y wybodaeth hon yn ddigonol i'ch helpu i benderfynu a ydych am fynd ymlaen â llawdriniaeth.

Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu unrhyw gwestiynau pellach i'w gofyn i'r meddyg neu'r nyrs pan fyddwch yn dod i'r ysbyty ar gyfer eich apwyntiad. Peidiwch â phoeni am ofyn cwestiynau. Bydd ein staff yn hapus i'w hateb.

A fydd angen sbectol arnaf ar ôl llawdriniaeth cataract?

Er mwyn cael y golwg gorau posibl, mae angen sbectol ar y rhan fwyaf o bobl o hyd ar ôl llawdriniaeth cataract. Mae'r siawns o beidio â bod angen sbectol ar ôl llawdriniaeth cataract yn dibynnu ar lawer o bethau. Mae'r rhain yn cynnwys eich gofynion golwg personol, presenoldeb unrhyw astigmatedd, a'r dewis o fewnblaniad lens (monofocal, toric, multifocal, neu monovision). Bydd eich ymgynghorydd yn esbonio hyn i chi.

Mae gan y rhan fwyaf o bobl sy'n cael llawdriniaeth cataract eisoes bresgripsiynau sbectol pellter a darllen gwahanol. Gallant fod yn sbectol ar wahân, yn ddeuffocal neu'n ffocal amrywiol. Os yw llawdriniaeth cataract (gan ddefnyddio mewnblaniad lens monoffocal) yn cywiro ffocws heb sbectol yn eich dau lygad am bellter, yna dylech ddisgwyl o hyd y bydd angen sbectol ddarllen arnoch ar gyfer ffocws agos.

Dylech benderfynu ym mha sefyllfaoedd nad oes ots gennych wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd a thrafod hyn yn y clinig. Dylech gymryd cymaint o amser ag sydd ei angen arnoch i ystyried hyn, hyd yn oed os yw'n golygu na allwch benderfynu ar y diwrnod. Os nad ydych yn siŵr, rydym yn argymhell siarad am hyn gyda'ch optegydd eich hun.

Fel dewis arall i gleifion sy'n fyr eu golwg ac sy'n well ganddynt ddarllen heb sbectol, efallai y bydd opsiwn i aros fel hyn a pharhau â sbectol pellter yn unig. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, a gallwn eich helpu gyda'r penderfyniad hwn.

Opsiynau lens

Mae nifer o ddewisiadau lens ar gael yn dibynnu ar eich anghenion a sut y caiff eich llawdriniaeth ei hariannu. Mae llawdriniaeth a ariennir gan y GIG yn caniatáu lensys monoffocal yn unig.

Mae llawdriniaeth cataract breifat yn rhoi dewis ehangach o driniaethau i chi nag sydd ar gael ar y GIG, sy'n golygu y gellir eu personoli i weddu i'ch anghenion. Gofynnwch i un o'r tîm os oes gennych chi ddiddordeb yn y lensys Aml-ffocws neu'r Toric a ddisgrifir isod.

Monoffocal

Y lens monoffocal safonol yw'r un y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ddewis. Ar ôl llawdriniaeth bydd eich golwg yn well, ond yn y rhan fwyaf o achosion bydd angen sbectol arnoch o hyd i'ch helpu i ganolbwyntio gyda golwg agos a/neu o bell. Efallai y bydd angen sbectol pellter arnoch hefyd yn dibynnu ar faterion fel astigmatedd. Y lens hwn yw'r unig ddewis a gynigir gan y GIG ac yn ein holl wasanaethau Newmedica.

Amlffocal

Mae lensys amlffocal yn arwain at well golwg agos heb sbectol, a mwy o annibyniaeth sbectol. Mae llawer o opsiynau a bydd angen trafodaeth fanwl arnoch os dymunwch ystyried y rhain. Mae gan rai mathau o'r lensys hyn risg uwch o sgîl-effeithiau gweledol digroeso fel llacharedd a lleugylchau.

Toric

Ar gyfer cleifion ag astigmatedd, gall lens toric gywiro'r astigmatedd a lleihau'r angen am sbectol â lensys mwy trwchus. Holwch yn eich gwasanaeth Newmedica lleol i weld a oes lensys toric ar gael i chi. Gellir cyfuno lensys Toric â lensys monoffocal neu amlffocal.

Eich ymgynghoriad cyn llawdriniaeth

Pan fyddwch yn cael eich cyfeirio at y clinig ar gyfer llawdriniaeth cataract byddwch yn mynd i mewn i lwybr gofal. Mae'r llwybr yn cynnwys nifer o gamau cyn diwrnod y llawdriniaeth.

Bydd yr apwyntiad asesu cyn llawdriniaeth naill ai'n digwydd yn y gwasanaeth neu drwy ymgynghoriad rhithwir neu dros y ffôn. Bydd y clinigwr yn gofyn rhai cwestiynau i chi am eich cyflwr, iechyd cyffredinol a meddyginiaeth a bydd y driniaeth yn cael ei hegluro i chi. Bydd cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych i'r meddyg.

A fydddech cystal â dod â'r canlynol gyda chi ar gyfer yr apwyntiad hwn:

- Rhestr wedi'i hargraffu o'r holl feddyginiaethau cyfredol gan eich meddyg teulu
- Pob sbectol presennol sydd gennych, ac os oes gennych hen bresgripsiynau sbectol, a fydddech cystal â dod â nhw
- Efallai y byddwch am ddod â sbectol haul gyda chi ar ôl y llawdriniaeth oherwydd gall y golau fod yn eithaf llachar

Os bydd eich asesiad cyn llawdriniaeth yn cael ei gynnal yn y gwasanaeth byddwch yn derbyn yr ymchwiliadau canlynol. Os byddwch yn cael ymgynghoriad rhithwir, bydd yr ymchwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.

- Mesur craffter gweledol - bydd aelod o'r tîm yn mesur eich golwg gan ddefnyddio siart llythrennau
- Mesur biometreg - cynhelir prawf i bennu pŵer y lens plastig a ddefnyddir yn ystod llawdriniaeth
- Os yw llythyr apwyntiad eich clinig yn eich cynghori i beidio â gyrru, y rheswm am hynny yw y bydd kannwyll eich llygad yn cael ei ymledu fel y gellir archwilio'r llygad. Mae ymledu yn achosi golwg aneglur ac felly gofynnwn i chi beidio â gyrru i'ch apwyntiad ac oddi yno. Gyrrwch dim ond pan fydd y golwg wedi dychwelyd i normal ar ôl ymledu.

Os ydych wedi cael llawdriniaeth plygiannol ar y gornbilen, a elwir weithiau'n llawdriniaeth blygiannol kerato, gan gynnwys LASIK, LASEK, PRK neu Geratotomi Rheiddiol, rhowch wybod i'r meddyg.

Unwaith y byddwch chi a'r meddyg yn hapus i chi symud ymlaen, bydd cynorthwyydd clinig yn trefnu dyddiad llawfeddygol addas.

Os ydych chi'n gwisgo lensys cyffwrdd:

- Dylid tynnu lensys meddal saith diwrnod cyn y diwrnod y cewch y prawf biometreg
- Dylid tynnu lensys athraidd neu galed nwy bythefnos cyn y diwrnod y cewch fiometreg
- Os ydych yn dioddef o glawstroffobia, rhowch wybod i ni yn eich apwyntiad a gallwn wneud trefniadau ar eich cyfer ar ddiwrnod y llawdriniaeth.

Y llawdriniaeth

72-48 awr cyn eich llawdriniaeth bydd cynorthwyydd clinig yn eich ffonio ac yn mynd trwy restr wirio sgrinio i sicrhau eich bod yn ddigon iach i dderbyn y llawdriniaeth.

Pwrrpas y llawdriniaeth yw newid y lens cymylog (cataract) gyda lens plastig (mewnblaniad) y tu mewn i'ch llygad.

Ymgynghorydd offthalmoleg profiadol fydd yn cynnal y llawdriniaeth neu fe all oruchwylio cofrestrydd arbenigedd offthalmoleg.

Gydag anaesthetig lleol byddwch yn effro yn ystod y llawdriniaeth. Ni fyddwch yn gallu gweld beth sy'n digwydd, ond byddwch yn ymwybodol o olau llachar.

Efallai y byddwch chi'n teimlo bod dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod y llawdriniaeth yn diferu i lawr ochr eich llygad ac mae hyn yn normal.

Os ydych chi'n gwisgo teclyn clyw, gofynnir i chi dynnu hwn yn ystod eich llawdriniaeth.

Byddwch yn gallu bwyta ac yfed fel arfer ar ddiwrnod y llawdriniaeth a chymryd eich meddyginiaeth, oni bai bod eich meddyg wedi cynghori fel arall.

- Bydd y llawfeddyg yn adolygu canlyniadau eich prawf, yn archwilio eich llygaid a chyn belled â'ch bod yn addas ac yn dymuno symud ymlaen, byddwch yn llofnodi ffurflen gydsynio ac yn cael eich tywys drwodd i'r ystafell lawdriniaeth.

Byddwch yn cael anaesthetig i fferru'r llygad. Gall hyn gynnwys dim ond diferion llygaid neu chwistrellu toddiant anaesthetig lleol i'r meinwe o amgylch y llygad. Dylai hyn fod yn gwbl gyfforddus.

Yn ystod y llawdriniaeth gofynnir i chi gadw'ch pen yn llonydd a gorwedd mor wastad â phosibl. Mae aelod o'r tîm ar gael fel arfer i ddal eich llaw yn ystod y llawdriniaeth, os ydych chi eisiau iddynt wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o gataractau yn cael eu tynnu gan dechneg o'r enw phacoemulsification, lle mae'r llawfeddyg yn gwneud toriad bach iawn yn y llygad, yn emwlsio'r lens â darn llaw uwchsonig ac yn allsugno deunydd y lens. Mae haen gefn y lens (y capsïwl) yn cael ei gadael ar ôl.

Yna gosodir lens artiffisial (mewnblaniad) i gymryd lle'r cataract. Weithiau rhoddir pwyth bach yn y llygad i selio'r clwyf. Ar ddiwedd y llawdriniaeth, efallai y bydd pad neu darian yn cael ei roi dros eich llygad i'w amddiffyn.

Os oes angen i chi wybod pa mor hir y byddwch yn y clinig ar gyfer llawdriniaeth, gofynnwch i'ch gwasanaeth lleol, gan fod amrywiadau lleol yn y llif llawfeddygol.

Ar ôl y llawdriniaeth

Os ydych yn anghyfforddus, rydym yn awgrymu eich bod yn cymryd paracetamol hyd at 4 gwaith y dydd gan adael o leiaf 4 awr rhwng dosau.

Mae'n normal teimlo amrantau grutiog, gludiog a theimlo ychydig yn anghyfforddus am ychydig ar ôl llawdriniaeth cataract. Mae rhywfaint o hylif yn diferu yn gyffredin.

Ar ôl ychydig ddyddiau, dylai hyd yn oed anghysur ysgafn ddiflannu. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd iachâd yn cymryd tua dwy i chwe wythnos, ac ar ôl hynny gall eich optegydd ragnodi sbectol newydd.

Mae golwg fel arfer yn gwella'n eithaf cyflym mewn 1-2 ddiwrnod ond gall gymryd mwy o amser mewn rhai achosion.

Byddwch yn cael diferion llygaid i leihau llid. Bydd staff y clinig yn esbonio sut a phryd i'w defnyddio.

Lle bo modd, ceisiwch osgoi gwisgo mwgwd wyneb am 7 diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth.

Peidiwch â rhwbio'ch llygad. Gallai rhai symptomau olygu bod angen triniaeth brydlon arnoch, gan gynnwys:

- Mwy o boen
- Colli golwg yn gyflym
- Mwy o gochni, neu hylif yn diferu
- Fflachiadau o olau, smotiau du arnofiol neu len ar draws eich golwg.

Galwad ar ôl llawdriniaeth

Rhag ofn i chi ddatblygu unrhyw un o'r symptomau uchod, neu os oes angen cyngor brys arnoch am eich llygad, ffoniwch y rhif argyfwng ar glawr cefn y llyfryn hwn.

Bydd aelod o'r tîm yn eich ffonio ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl llawdriniaeth i weld sut yr ydych yn dod ymlaen, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Diferion llygaid

Byddwch yn cael diferion cataract ar ôl y llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Os ydych yn cymryd diferion eraill (e.e. ar gyfer glawcoma), a fydddech cystal â chael potel ffres gan eich meddyg teulu i ddechrau ar ôl eich llawdriniaeth. Byddwch yn derbyn arweiniad ar eich diferion llygaid gan staff y clinig.

I'w gwblhau gan yr ymarferydd rhyddhau.

Enw'r feddyginiaeth	Dyddiad Dechrau	Nifer y diferion	Hyd	Brecwast	Amser cinio	Amser te	Amser gwely
e.e. Maxidex	3ydd lonawr	1	3 wythnos	x	x	x	x

Gofalu am y llygad

Ar ôl llawdriniaeth:

Pethau i'w Gwneud

- Golchwch eich dwylo'n drylwyr â sebon a dŵr cyn cyffwrdd â'ch llygad
- Os gosodwyd pad neu orchudd ar eich llygad, tynnwch ef a thaflwch y bore wedyn, yna glanhewch eich llygad fel y cyfarwyddiadau isod.
- Glanhewch eich llygad yn ôl yr angen gyda phadiau cotwm, rhwyllen neu hancesi papur glân, wedi'u gwlychu â dŵr wedi'i ferwi wedi'i oeri.
- Os nad oes pad neu orchudd ar y llygad ar ôl llawdriniaeth, defnyddiwch y diferion ar unwaith a'u glanhau yn ôl yr angen.
- Defnyddiwch y diferion llygaid fel y rhagnodir, fel arfer 3-4 gwaith y dydd am 3 wythnos.
- Os ydych yn glaf glawcoma, cofiwch agor potel newydd o ddiferion llygaid a pharhau i ddefnyddio'r diferion llygaid fel y rhagnodir.
- Gwisgwch sbectol haul os dymunwch.
- Mi fedrwch yrru cyn gynted ag y bydd eich golwg yn cyrraedd safon yrru'r DVLA (yn darllen plât rhif 20 metr gyda'r ddau lygad ar agor ar gyfer car preifat). Gall hyn fod y diwrnod nesaf, ond efallai y bydd angen ei ohirio nes bod eich llygaid yn cael eu mesur ar gyfer sbectol newydd.
- Gallwch gael cawod neu ymolchi fel arfer, ond ceisiwch gadw dŵr budr a sebon i ffwrdd o'ch llygad.
- Gallwch chi blygu drosodd i godi pethau.
- Osgowch nofio am 4 wythnos.
- Osgowch amgylcheddau budr, llychlyd yn ystod yr wythnos gyntaf.

Pethau i beidio â'u gwneud

- Peidiwch â rhwbio na chyffwrdd â'r llygad, peidiwch â gwisgo colur llygaid.
- PEIDIWCH â defnyddio "Bath Llygaid".
- Rydym yn argymhell nad ydych yn teithio dramor nes eich bod wedi cael eich adolygiad ar ôl llawdriniaeth.

Unrhyw gyngor ychwanegol

Mae ein cyfarwyddiadau ar ôl llawdriniaeth yn ganllaw a gall staff roi cyfarwyddiadau pellach ar lafar.

pe bai'r ddau gataract yn cael eu tynnu efallai y bydd y llawdriniaeth yn teimlo'n wahanol yn dibynnu ar batholeg eich llygad a'r dechneg lawfeddygol

Sbectol ar ôl llawdriniaeth cataract

Mae'r llygad yn newid siâp wrth iddo wella, a bydd eich presgripsiwn sbectol yn newid yn ystod yr amser hwn. Bydd angen i chi ddiweddarau eich sbectol bedair i chwe wythnos ar ôl eich llawdriniaeth.

Ar ôl y llawdriniaeth - apwyntiad dilynol

Bydd ein cynorthwyrwyr clinig mewn cysylltiad i drefnu apwyntiad dilynol gyda chi i adolygu eich llawdriniaeth cataract. Fodd bynnag, efallai y bydd eich optegydd yn cysylltu â chi a gofynnir i chi fynychu apwyntiad ar ôl llawdriniaeth gyda nhw. Byddant yn adrodd yn ôl i Newmedica ar ôl iddynt eich gweld.

Llawdriniaeth ar gyfer ail lygaid

Os dywedwyd wrthyfch fod angen llawdriniaeth cataract ar eich dau lygad, byddwn yn cysylltu â chi 4-6 wythnos ar ôl y llawdriniaeth ar eich llygad cyntaf i drefnu'r ail lygad.

Eich cwestiynau

Gobeithiwn fod y wybodaeth hon yn ddigonol i'ch helpu i benderfynu a ydych am fynd ymlaen â llawdriniaeth.

Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu unrhyw gwestiynau pellach i'w gofyn i'r meddyg neu'r nyrs pan fyddwch yn dod i'r ysbyty ar gyfer eich apwyntiad.

Peidiwch â phoeni am ofyn cwestiynau. Bydd ein staff yn hapus i'w hateb.

FFURFLEN GYDSYNIO – CYTUNDEB Y CLAF I DRINIAETH

TRINIAETHAU DAN ANAE HETIG LLEOL

Patient label area

Trefn cymorth enw
(rhowch esboniad byr os nad yw'r term
meddygol yn glir)

[Nodwch Ochr y Llygad]

Gwryw ☐

Benyw ☐

ECHDYNNU CATARACT A MEWNBLANIAD
LENS O DAN ANAESTHESIA LLEOL

Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol (i'w llenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y weithdrefn arfaethedig, fel y nodir yn y polisi cydsynio)

Tystiaf fod gan y claf hwn, yn fy marn i, alluedd i gydsynio i'r driniaeth hon fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) IE/NA

(Os NA, neu'n ansicr, rhaid llenwi ffurflen Asesiad Galluedd Meddyliol a'i hatodi)

Gellir ysgrifennu unrhyw wybodaeth ategol yma:

Mae lle yn dilyn ar gyfer datganiad byr i gefnogi'r IE ac i ychwanegu unrhyw ffactorau risg unigol a drafodwyd:

Rwyf wedi egluro'r driniaeth i'r claf/rhiant. Yn benodol, rwyf wedi egluro:

Y manteision a fwriedir: gwella ansawdd y golwg

Risgiau difrifol neu risgiau sy'n digwydd yn aml:

- **Colli golwg neu lygad:** bydd un person o bob 1,000 yn mynd yn ddall yn y llygad y rhoddwyd llawdriniaeth arno o ganlyniad uniongyrchol i'r llawdriniaeth. Bydd un o bob 10,000 yn colli'r llygad.
- **Triniaethau pellach:** triniaethau laser a/neu lawdriniaeth bellach

RISGIAU SY'N DIGWYDD YN AML

Y canlynol, a gymerwyd o *Ganllawiau Llawdriniaeth Cataract* Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, yw'r cymhlethdodau penodol mwyaf cyffredin:

- **Ecchymosis:** cleisio'r llygad neu'r amrannau (eithaf cyffredin).
- **Rhwygiad capsawl ôl a/neu golli hylif gwydrog:** hollt yn wal gefn denau'r cataract a all ganiatáu cyfathrebu rhwng adrannau blaen a chefn y llygad.
- **Glawcoma ar ôl llawdriniaeth:** pwysau uwch yn y llygad am tua diwrnod cyntaf (cyffredin). Efallai y bydd angen triniaeth dros dro ar gyfer hyn.
- **Didreiddiad capsawlaid ôl (posterior capsular opacification):** cymylu'r bilen y tu ôl i'r mewnbaniad gan achosi golwg aneglur.
- **Oedema macwlaidd systoid:** hylif llidiol yng nghanol y retina. Mae hyn fel arfer yn ysgafn ac nid oes angen unrhyw driniaeth. Gall fod yn ddifrifol ac efallai y bydd angen triniaeth hirfaith.
- **Syndod plygiannol:** Mae syndod plygiannol yn digwydd pan fo gwahaniaeth sylweddol yn y presgripsiwn sbectol ddisgwyliedig ar ôl llawdriniaeth. Gall hyn ddigwydd mewn hyd at 10% o gleifion ac fel arfer gellir ei gywiro â sbectol. Ar gyfer nifer fach iawn o achosion efallai y bydd angen triniaeth bellach ond byddwn yn trafod unrhyw gamau nesaf gyda chi.
- **Alargedd:** i'r diferion a roddir ar ôl y llawdriniaeth, gan achosi llygad chwyddedig gosi hyd nes y bydd y diferion yn stopio cael eu defnyddio neu'n cael eu newid.
- **Niwclews wedi Gollwng:** mae rhan neu'r cyfan o'r cataract yn syrthio trwy rwygiad capsawl y tu ôl i ran gefn y llygad, ac mae angen llawdriniaeth arall i'w dynnu.
- **Gwaedlif sglera-coroid (suprachoroidal haemorrhage):** gwaedu y tu mewn i'r llygad a allai olygu bod angen cwblhau'r llawdriniaeth ar ddiwrnod arall.
- **Dad-gyfadferiad y cornbilen:** y cymylu o ffenestr flaen y llygad sydd fel arfer yn glir.
- **Retina datgysylltiedig:** y pilio o'r haen o gelloedd sy'n gweld o fewn y llygad.
- **Endophthalmitis:** haint difrifol (poenus fel arfer) y tu mewn i'r llygad.
- **Dadleoliad y mewnbaniad:** symudiad y mewnbaniad lens allan o safle.

Dewisiadau eraill yn lle llawdriniaeth: Nid oes unrhyw driniaethau amgen heblaw llawdriniaeth ar gyfer cataract.

- Os na chaiff y cataract ei dynnu, gall y golwg aros yr un fath, ond mae'n debyg y bydd yn gwaethgu'n raddol.
- **COVID-19:** Yn y mwyafrif, mae COVID-19 yn achosi salwch ysgafn, hunangyfngol ond gall symptomau amrywio'n fawr ymhlith unigolion ac mae'n bwysig eich bod yn deall y proffil risg penodol i chi'ch hun. **Nid oes unrhyw sicrwydd o sero risg o drosglwyddo COVID-19.**
Am ragor o wybodaeth: www.gov.uk/coronavirus

Rwyf hefyd wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth) a unrhyw bryderon penodol sydd gan y rhai sy'n gysylltiedig.

- Llofnodi'r ffurflen gydsynio yn y llyfryn cataract a'r llyfryn gwybodaeth i gleifion

LLOFNOD	ENW (llythrennau bras)	TEITL SWYDD	DYDDIAD																
			<table border="1"> <tr> <td>D</td><td>D</td><td>M</td><td>M</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td> </tr> <tr> <td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td> </tr> </table>	D	D	M	M	B	B	B	B								
D	D	M	M	B	B	B	B												

Datganiad cyfieithydd ar y pryd (lle bo'n briodol)

Rwyf wedi cyfieithu'r wybodaeth uchod i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd y credaf y gall ef/hi ei ddeall.

LLOFNOD	ENW (llythrennau bras)	DYDDIAD																
		<table border="1"> <tr> <td>D</td><td>D</td><td>M</td><td>M</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td> </tr> <tr> <td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td> </tr> </table>	D	D	M	M	B	B	B	B								
D	D	M	M	B	B	B	B											

Datganiad y claf (neu'r person sy'n gyfrifol am y claf)

- Cytunaf i gael y weithdrefn a ddisgrifir uchod.
- Rwy'n deall na allwch roi sicrwydd imi y bydd person penodol yn cyflawni'r weithdrefn. Bydd gan yr unigolyn, fodd bynnag, brofiad priodol.
- Rwy'n deall y bydd y driniaeth yn cynnwys anaesthesia lleol.

LLOFNOD	ENW (llythrennau bras)	DYDDIAD																
		<table border="1"> <tr> <td>D</td><td>D</td><td>M</td><td>M</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td> </tr> <tr> <td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td> </tr> </table>	D	D	M	M	B	B	B	B								
D	D	M	M	B	B	B	B											

Cadarnhad o gydsyniad (i'w gwblhau gan weithiwr iechyd proffesiynol pan fydd y claf yn cael ei dderbyn ar gyfer y driniaeth, os yw'r claf wedi llofnodi'r ffurflen ymlaen llaw)

- Rwyf wedi cadarnhau nad oes gan y claf unrhyw gwestiynau pellach a dymunaf i'r weithdrefn fynd yn ei blaen.
- Mae'r ffurflen gydsynio yn nhaflen y claf hefyd wedi'i chwblhau.

LLOFNOD	ENW (llythrennau bras)	TEITL SWYDD	DYDDIAD																
			<table border="1"> <tr> <td>D</td><td>D</td><td>M</td><td>M</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td><td>B</td> </tr> <tr> <td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td> </tr> </table>	D	D	M	M	B	B	B	B								
D	D	M	M	B	B	B	B												

Cysylltiadau defnyddiol a brys

Ar gyfer pob ymholiad clinigol a chyffredinol,
megis newidiadau i'ch apwyntiad a phryderon ar
ôl llawdriniaeth:

(Oriau Swyddfa: Dydd Llun i ddydd Sul - 9yb i 4.30yp)

Ffôn: 0117 2445541

Ar gyfer pryderon clinigol ar ôl llawdriniaeth a
thu allan i oriau arferol:

(Dyddiau'r wythnos ar ôl 4.30yp a phenwythnosau)

Cyfeiriwch at dudalen 13 am restr o sgîl-ffeithiau posibl yn dilyn llawdriniaeth cyn ffonio'r rhif
argyfwng.

Ffôn: 0300 3034053

Cysylltwch â ni ar frys os sylwch ar:

- **Mwy o boen**
- **Colli golwg yn gyflym**
- **Mwy o gochni, neu ryddhad hylif**
- **Fflachiadau o olau, smotiau du arnofiol neu len ar draws eich golwg.**

Darperir y gwasanaeth hwn yn Bristol Aztec West, gan Bristol Newmedica Limited, cwmni
partneriaeth menter ar y cyd o fewn Newmedica Group. Mae Bristol Newmedica Limited wedi'i
gofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal, rhif darparwr I-4752978345.

Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a argymhellir i gleifion gan Goleg
Brenhinol yr Offthalmolegwyr: Canllawiau Llawfeddygaeth Cataract 2010.

Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a argymhellir i gleifion o Ganiatâd y GIG (Rhagfyr 2022).